| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **8 Medi 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Bobby Feeley/Phil Gilroy** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Sandra Jones, Swyddog Datblygu Strategaeth Pobl Hŷn** |
| **Teitl:** | **Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r gofyniad i gynhyrchu Cynllun Heneiddio'n Dda ar gyfer Sir Ddinbych, yn unol â Chanllawiau a dderbyniwyd gan swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

Lansiwyd y Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru yn ffurfiol ym mis Hydref 2014 fel partneriaeth pum mlynedd o lywodraeth genedlaethol a lleol ac asiantaethau mawr yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru. Mae'r Rhaglen yn cael ei chynnal a'i chadeirio gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae'r Rhaglen gyntaf o'i math yn y DU, Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru yn cyfrannu at ac yn ategu'r Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Hŷn (Cam 3) 2013-2023. Nod cyffredinol y Rhaglen yw sicrhau, o fewn Cymru, "bod yna welliant yn lles pobl 50 oed a throsodd."
Mae Cynllun Heneiddio'n Dda Sir Ddinbych yn nodi sut y bydd pum thema blaenoriaeth y rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru yn cael eu cyflwyno yn Sir Ddinbych. Y pum thema yw: Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed, Cymunedau Cefnogol i Ddementia, Atal Codymau, Cyfleoedd ar gyfer Cyflogaeth, Dysgu a Sgiliau Newydd, Unigrwydd ac arwahanrwydd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth ynghylch Cynllun Heneiddio'n Dda Sir Ddinbych a gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor Sir. Mae'r Cynllun hwn ynghlwm yn Atodiad 1.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod Cyngor Sir Ddinbych yn ystyried y Cynllun Heneiddio'n Dda hwn ac yn cefnogi ei weithrediad.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Yn gyffredin ag ardaloedd awdurdodau lleol eraill, mae poblogaeth Sir Ddinbych yn heneiddio ac mae gan hyn oblygiadau mawr ar gyfer yr holl wasanaethau, yn enwedig gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae angen cael perchnogaeth gorfforaethol lawn o'r materion allweddol o amgylch anghenion y boblogaeth hŷn a

sut y dylent gael sylw yn y dyfodol. Rydym wedi cynhyrchu Strategaeth ar gyfer Cefnogi Annibyniaeth yn Sir Ddinbych (SID) sy'n cydnabod pwysigrwydd yr agenda hon ac mae ein Cynllun Heneiddio'n Dda yn rhan allweddol o'r Strategaeth.

Mae SID a'r Cynllun Heneiddio'n Dda yn gofyn am ffocws pwysig ar ymyrraeth gynnar ac atal ac mae'r rhain hefyd yn themâu allweddol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, sy'n dod i rym ym mis Ebrill 2016. Mae cydnabyddiaeth gyffredinol bod angen i ni symud i ffwrdd o’r ffordd draddodiadol o ddarparu gwasanaethau, a oedd yn creu gorddibyniaeth ar wasanaethau statudol a gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu ystod o fentrau sy'n gwneud llawer mwy i gefnogi pobl o fewn eu cymunedau eu hunain. Mae yna ofyniad pwysig i annog mesurau ataliol ar gamau cynharach a gweithio gyda chymunedau i'w galluogi i fod yn fwy cefnogol o bobl hŷn.

Mae gofyn i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru ddatblygu Cynllun Heneiddio'n Dda sy’n rhaid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'r Comisiynydd ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru erbyn mis Hydref 2015. Mae'r Comisiynydd yn bwriadu monitro gweithredu’r holl gynlluniau lleol a bydd yn darparu adroddiad annibynnol ar gyflawniadau lleol (a chenedlaethol) yn erbyn canlyniadau. Mae hyn felly yn ofyniad proffil uchel y mae'n rhaid i ni ei gyflawni mor effeithiol ag y bo modd gyda chefnogaeth ein partneriaid allweddol.

## 5. Y Pum Thema

**a. Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed:** Y nod yw diwallu anghenion pobl hŷn, a phobl o bob oed, ym mhob cymuned unigol drwy ymateb yn uniongyrchol i'w hanghenion. Disgwylir i gymunedau o’r fath annog a galluogi pobl hŷn i ymgysylltu â'u hamgylchedd a pharhau i gymryd rhan yn gymdeithasol o fewn eu cymunedau, a thrwy hynny gadw eu hiechyd, annibyniaeth a lles.

**b. Atal Codymau:** Mae cwympiadau yn cael effaith fawr ar anghenion ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac maent yn aml yn ffactor allweddol mewn derbyniadau i'r ysbyty a derbyniadau gofal preswyl. Felly, mae'n hanfodol i gael ystod o fesurau ar waith sy'n atal codymau ac i helpu pobl hŷn i fyw yn hirach yn eu cartrefi eu hunain ac yn parhau i fod yn weithgar yn eu cymunedau.

**c. Cymunedau sy’n Gefnogol i Dementia:** Y ddelfryd yw i bob cymuned ddangos lefel uchel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyhoeddus o ddementia. Mae un rhan o dair o bobl sydd dros 65 oed yn debygol o ddioddef o ddementia sy'n golygu bod pob teulu yn debygol o gael eu heffeithio ganddo. Yn ôl y Comisiynydd Pobl Hŷn, "*mae’r canolbwynt ... angen bod ar wneud ein cymunedau yn wirioneddol gefnogol i ddementia, fel y gall pobl fyw yn dda gyda dementia".*

**d. Cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, dysgu a sgiliau newydd:** Mae gan bobl hŷn gyfoeth o wybodaeth a phrofiad sydd yn aml ddim yn cael ei werthfawrogi. Mae mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran a chydnabod gwerth pobl hŷn i'r economi leol yn Sir Ddinbych yn hollbwysig ac mae angen gwneud mwy i alluogi pobl hŷn i gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a dysgu.

**e. Unigrwydd ac Unigedd:** Mae'r rhain wedi dangos eu bod yn cael effaith mawr ar iechyd a lles. Gall dileu unigrwydd ac unigedd fod yn afrealistig, ond mae angen i ni weithio ar bob lefel wrth nodi a mynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd yr achos.

### 6. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd y Cynllun Heneiddio'n Dda yn cyfrannu at weithredu Cynllun Lles Sir Ddinbych 2014-2018 a hefyd Blaenoriaethau'r Cyngor o fewn y Cynllun Corfforaethol 2012 - 2017. Mae'r ddau yma'n cyfeirio at bwysigrwydd cefnogi pobl i fyw yn annibynnol.

### 7. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Rydym yn rhagweld y bydd cynlluniau ymyrryd ac atal cynnar i bobl hŷn yn cael ei gryfhau trwy weithredu'r Cynllun hwn a dylai hyn arwain at ostyngiad yn y galw am wasanaethau statudol ac o ganlyniad, mewn costau gwasanaethau.

### 8. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb. Gweler Atodiad 2

Y prif gasgliadau yw na fydd yna unrhyw oblygiadau negyddol ar gyfer pobl sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir.

### 9. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Ymgynghorwyd gyda Grŵp Cyfeirio Pobl Hŷn Sir Ddinbych, Age Connect Fforymau Dros 50 oed Canol Gogledd Cymru a'r grŵp Fy Mywyd i, Fy Ffordd i.

### 10. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Rhagwelir y bydd y Cynllun Heneiddio'n Dda ar gyfer Sir Ddinbych yn arwain at fesurau ymyrryd ac atal cynnar a ddylai arwain at ostyngiad yn y galw a ragwelir yn y gwasanaethau statudol yn y dyfodol. Bydd angen i unrhyw gostau uniongyrchol sy'n codi o'r Cynllun gael eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol.

### 11. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Os na chefnogir, ni fyddai Sir Ddinbych yn cwrdd â'n cyfarwyddyd gan swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru ynghylch cynlluniau lleol Heneiddio'n Dda a Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru.

### 12. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae'n ofyniad gan y Comisiynydd ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru bod pob Awdurdod Lleol yn cynhyrchu Cynllun Heneiddio'n Dda erbyn mis Hydref 2015.